

Cynhyrchydd Amgueddfa Cymru: SgrinWyna 2022:

- Cynhyrchydd Cynnwys Digidol x 2* (Gweithio o bell – ar-lein)
- Cynhyrchydd Cynnwys Digidol/Fideograffydd x 1 (Gweithio yn Sain Ffagan)

Lle: Ar-lein / Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

Pryd: Chwefror/Mawrth 2022

***Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer 1 o'r rolau gweithio o bell, ac yn ddymunol (ond ddim yn hanfodol), ar gyfer rôl y fideograffydd. (Mae mwy o wybodaeth am ystyr 'hanfodol' a 'dymunol' ar ddiwedd y ddogfen).**

Nawdd: Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac Amgueddfa Cymru.

Ffi:

- **Rolau gweithio o bell x 2: £800.** Rydym yn amcangyfrif bydd angen 8 diwrnod ar gyfer y rolau hyn.
- **Rôl yn Sain Ffagan x 1: £1200** Rydym yn amcangyfrif bydd angen 12 diwrnod ar gyfer y rôl hon.

Telir costau teithio o 22c y filltir am deithio yn y car neu fel ad-daliad am docynnau bws/trên. Bydd y Cynhyrchydd Amgueddfa Cymru yn anfonebu Amgueddfa Cymru am waith a gwblheir ar gamau y cytunwyd arnynt. Bydd ffioedd a threuliau yn cael eu talu fel ôl-daliadau.

Cefndir:

Mae project *Dwylo ar Dreftadaeth* Amgueddfa Cymru yn gweddnewid y ffordd y mae pobl ifanc yn gweithio gydag Amgueddfa Cymru. Mae'r project yn newid y ffordd y mae pobl ifanc yn gweld ac yn cysylltu â'r amgueddfeydd, ac mae'n creu cyfleoedd i roi llais i bobl ifanc mewn gwahanol agweddau ar waith y sefydliad.

Mae Project Wyna wedi'i gynnal yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yng Nghaerdydd bob blwyddyn ers mis Mawrth 2015. Mae'r project yn cynnwys teithiau

Ŵyna i ysgolion, mynediad i'r sied ŵyna i'r cyhoedd, cyrsiau a phrofiad [SgrinWyna](#) ar-lein. Gall pobl sy'n ymweld â thudalen [SgrinWyna](#) weld y diweddaraf o'r sied ŵyna, oriel o uchafbwyntiau fideo, a'r ystadegau geni diweddaraf. Mae'r project yn cyrraedd cynulleidfa ryngwladol gan gynnwys cefnogwyr ffyddlon sy'n dychwelyd bob blwyddyn i ddilyn hynt a helynt y sied ŵyna.

Penawdau project 2021:

- Tua 22,000 o ymgysylltiadau digidol â chynnwys y ffrwd byw
- Bron i 100% o gynnydd yn nifer yr ymweliadau dyddiol â'r wefan (effaith y cyfnod clo!)
- Dros y tridiau prysuraf ar YouTube, at ei gilydd cafwyd 7,255 o ymweliadau â'n tudalen gydag ymwelwyr yn aros am 20-33 munud ar gyfartaledd.

Rydym yn chwilio am 3 Chynhyrchydd Amgueddfa Cymru i ymuno â'r tîm fydd yn gyfrifol am elfen ddigidol SgrinWyna 2022. Dyma beth sydd gan Gynhyrchwyr Amgueddfa Cymru'r llynedd i ddweud am eu profiad o gymryd rhan yn y project:

<https://fb.watch/8WbfKYc5xi/>

Bydd Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru (rolau gweithio o bell x 2) yn:

- Gweithio'n rhan o dîm sy'n rheoli'r camera o bell ar gyfer ffrwd byw SgrinWyna.
- Gweithio mewn amgylchedd dwyieithog gyda thimau'r Adrannau Digwyddiadau a Marchnata i greu cynnwys dwyieithog, ffresh ac atyniadol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol er mwyn cefnogi'r project.
- Cynhelir SgrinWyna 2022 rhwng 12 a 27 Mawrth 2022 – rhaid i ti fod ar gael i weithio ar ddiwrnodau'r wythnos yn ystod y cyfnod hwn.
- Galli di fod yn unrhyw le i wneud y rolau hyn – rydym yn annog ceisiadau o gymunedau gwledig.
- Bydd angen cysylltiad band-eang dibynadwy ar ymgeiswyr. Galli di brofi dy gysylltiad gyda gwiriwr cyflymder ar-lein. Mae angen o leiaf 10Mbps o gyflymder ar gyfer lawrlwytho, ac 8.62 ar gyfer uwchlwytho.

- Rhaid i ti fod yn hyderus yn gweithio mewn amgylchedd ar-lein (bydd yr Amgueddfa yn darparu gliniadur a hyfforddiant llawn ar gyfer elfennau technegol y rolau gweithio o bell)
- Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer 1 o'r 2 swydd gweithio o bell.
- Rhaid i ti fod rhwng 16 a 25 oed i ymgeisio am y cyfle hwn.

Bydd y rôl Cynhyrchydd Amgueddfa Cymru/Fideograffydd (yn gweithio yn Sain Ffagan) yn:

- Cydweithio â'r Tîm Addysg i ddarparu cynnwys wyna rhyngweithiol digidol ar gyfer y sector ysgolion/dysgu gartref.
- Mae angen y sgiliau arnat ti i allu ffilmio a golygu pecynnau fideo byr dyddiol. Rydyn ni'n chwilio am gynnwys 'tu ôl i'r llenni/gohebydd ar grwydr' i gyd-fynd â'r ffrwd byw.
- Efallai bod gennyf offer/meddalwedd golygu dy hun – ond nid yw hyn yn hanfodol. Gallwn gefnogi'r agwedd hon ar y rôl.
- Byddi di hefyd yn rhan o'r tîm sy'n rheoli llif rhyngweithiol Cwestiynau ac Ateb gan ysgolion ar gyfer y project.
- Cynhelir SgrinWyna 2022 rhwng 12 a 27 Mawrth 2022 – rhaid i ti fod ar gael i deithio i Sain Ffagan Amgueddfa Cymru i weithio ar ddiwrnodau'r wythnos yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol, ond nid yn hanfodol, ar gyfer y swydd hon.
- Rhaid i ti fod rhwng 16 a 25 oed i ymgeisio am y cyfle hwn.

Datblygu Pobl Ifanc:

Mae cynnydd a datblygiad mewn sgiliau pobl ifanc yn bwysig i ni yn Amgueddfa Cymru. Bydd y cyfle hwn yn dy helpu di i ddatblygu sgiliau ac:

- Magu profiad o weithio mewn amgylchedd dwyieithog gyda'n timau Digwyddiadau, Cyfryngau Digidol, Addysg, TG a Marchnata yn y project amlddisgyblaethol hwn.
- Cyfrannu at y gwaith o greu a chyflwyno cynnwys digidol ar gyfer cynulleidfa gyffredinol y project SgrinWyna.
- Helpu i greu a chynnal rhaglen o gynnwys digidol rhyngweithiol i gynulleidfa ysgolion/plant sy'n dysgu gartref.
- Dysgu am arferion a phrosesau amgueddfaol, megis protocolau'r cyfryngau cymdeithasol a marchnata, a chyflawni cynnwys ffrwd byw.
- Dylunio a chyflwyno:
 - cynnwys ffrwd byw i gynulleidfa fyd-eang
 - cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i'w rannu ar sianeli'r Amgueddfa
 - cynnwys dysgu digidol rhyngweithiol i ysgolion/y rheiny sy'n dysgu gartref
- Byddwn yn dy gefnogi di gyda llythyrau argymell a geirdaon.

Sut i wneud cais:

E-bostia'r canlynol at bernice.parker@amgueddfacymru.ac.uk

- Crynodeb bras o dy ddiddordeb yn y cyfle hwn – noda ba rôl hoffet ti ymgeisio amdani, a sut wyt ti'n addas ar gyfer y swydd.
- CV cryno.
- Galli di anfon enghreifftiau o dy waith; dylai hyn gynnwys dim mwy nag wyth llun neu bedwar dolen ar gyfer fideos neu blogs. Ni ddylai'r e-bost fod yn fwy na 10MB.

Mae croeso i ti ymgeisio yn Gymraeg, ni fydd dy gais yn cael ei drin llai ffafriol.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 7/1/2022

Cyfweliadau: Yr wythnos yn dechrau ar 24 Ionawr 2022.

Diffiniadau ar gyfer lefel gallu Cymraeg – Hanfodol/Dymunol

Hanfodol: Mae angen i ti allu siarad, ysgrifennu a deall Cymraeg ar gyfer y swydd yma. Paid â phoeni os nad wyt ti wedi defnyddio dy sgiliau Cymraeg ar gyfer gwaith o'r blaen, byddwn ni'n dy gefnogi a bydd llwyth o gyfleoedd i ti ddatblygu dy sgiliau a magu hyder.

Dymunol: Dyw sgiliau Cymraeg ddim yn hanfodol ar gyfer y swydd, ond os wyt ti'n siarad Cymraeg yn barod, dyma gyfle i ti ddefnyddio'r iaith yn dy waith. Wedi colli hyder? Fe wnewn ni dy gefnogi a bydd cyfleoedd i ti ddatblygu dy sgiliau.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi sgiliau mewn ieithoedd eraill hefyd, rho wybod i ni pa ieithoedd eraill rwyt ti'n eu siarad yn dy gais.